



Joint Council for Qualifications

Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig

Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol

Mewn grym o 1 Medi 2021 ymlaen

At sylw penaethiaid canolfannau, arweinwyr hŷn mewn
ysgolion a cholegau a swyddogion arholiadau

Cynhyrchwyd ar ran:



Anogir canolfannau i gyrchu'r fersiwn rhyngweithiol o'r llyfryn hwn gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Mae'r CAP ar gael drwy unrhyw un o wefannau allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

Diweddarwyd y ddogfen hon ymhellach, 4 Mai 2022, gan y cyrff dyfarnu CGC sy'n gweithredu yng Nghymru. Maent wedi cyhoeddi canllawiau atodol ar sut i gymhwyso'r broses ystyriaeth arbennig yng nghyd-destun cyfres arholiadau Mehefin 2022 a chanllawiau Llywodraeth Cymru:

[Hunanyngysu: canllawiau i bobl â COVID-19 a'u cysylltiadau](#) a ddiweddarwyd ar 3 Mai 2022.

Cynnwys

Manylion Cyswllt	2
1 Beth yw ystyriaeth arbennig?	3
2 Pa ymgeiswyr fydd yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig?	4
3 Ymgeiswyr sy'n bresennol ar gyfer yr asesiad ond sydd dan anfantais	6-7
4 Ymgeiswyr sy'n absennol o gydran/uned ar yr amserlen am resymau derbyniol	8-9
5 Materion eraill	10-11
6 Prosesu ceisiadau am ystyriaeth arbennig (Cymwysterau TGAU a TAG)	12-14
7 Addasiadau ar ôl yr asesiad – ystyriaeth arbennig (Cymwysterau Galwedigaethol)	15-16
Atodiad 2	Canllawiau atodol ynghylch y broses ystyriaeth arbennig i ganolfannau yng Nghymru yng nghyfres arholiadau Mehefin 2022* 17-22

Manylion cyswllt

AQA

Ffôn: 0800 197 7162

Gwefan: www.aqa.org.uk

CCEA

Ffôn: 02890 261 200

Gwefan: www.ccea.org.uk

Pearson

Ffôn: 0344 463 2535

Gwefan:

<http://qualifications.pearson.com>

City & Guilds

Ffôn: 020 7294 2772

Gwefan: www.cityandguilds.com

OCR

Ffôn: 01223 553 998

Gwefan: www.ocr.org.uk

WJEC/CBAC

Ffôn: 02920 265 000

Gwefan: www.cbac.co.uk

Rhaid codi pob ymholiad ynghylch ystyriaeth arbennig gyda'r corff dyfarnu perthnasol, **nid** y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Ni chaiff y Cyd-gyngor Cymwysterau ymdrin ag ymholiadau ynghylch ystyriaeth arbennig.

Mae unrhyw newidiadau a wnaed i gynnwys y ddogfen hon ers y fersiwn blaenorol (1 Medi 2020 hyd at 31 Awst 2021) wedi'u hamlygu fel eu bod yn hawdd eu gweld.

1 Beth yw ystyriaeth arbennig?

Rhoddir ystyriaeth arbennig i ymgeisydd sydd wedi profi salwch, anaf neu ddigwyddiad arall dros dro sydd y tu hwnt i'w rheolaeth **ar adeg yr asesiad**. Fe'i cymhwysir pan fydd y mater neu'r digwyddiad wedi effeithio'n faterol, neu ei fod yn rhesymol debygol o fod wedi gwneud hynny, ar allu ymgeisydd i sefyll asesiad neu i ddangos ei lefel arferol o gyrhaeddiad mewn asesiad.

Gall ystyriaeth arbennig gynorthwyo ymgeiswyr a allent fod wedi'u heffeithio gan amrywiaeth eang o anawsterau posibl, rhai emosiynol neu gorfforol, ac a allai fod wedi dylanwadu ar berfformiad yn ystod arholiadau. Ni all gael gwared ar yr anhawster y mae'r ymgeisydd yn ei wynebu. Mae hyn yn golygu y bydd rhai sefyllfaoedd lle na ddylai ymgeiswyr gael eu cofrestru ar gyfer arholiad. Mae hyn oherwydd mai dim ond addasiadau bach y gellir eu gwneud i'r marc a ddyfernir. Byddai gwneud addasiadau mwy yn peryglu safon yr arholiad.

Mae gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol (Gweler Pennod 4, adran 4.3).

Mae pob arholiad yn mesur yr hyn y mae'r ymgeisydd yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. **Rhaid** i'r gradd(au) cyffredinol a ddyfernir adlewyrchu'r lefel cyrhaeddiad a ddangoswyd yn ystod yr arholiad(au). Nid yw'r graddau a ddyfernir o reidrwydd yn adlewyrchu gwir lefel yr ymgeisydd o ran gallu os effeithiwyd ar y lefel cyrhaeddiad yn sylweddol dros gyfnod hir.

Pan fo amgylchiadau tymor hir wedi atal yr ymgeisydd rhag cyrraedd y safonau cymhwysedd, efallai na fydd gwneud addasiad yn bosibl.

2 Pa ymgeiswyr fydd yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig?

Rhaid gwneud cais am ystyriaeth arbennig **ar adeg yr asesiad**.

- 2.1 Bydd ymgeiswyr yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig os ydynt wedi cael eu paratoi'n llawn ac wedi astudio'r cwrs cyfan, ond bod eu perfformiad yn ystod yr arholiad, neu wrth lunio gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan amgylchiadau andwyol y tu hwnt i'w rheolaeth. Yn eu plith, mae:
- 2.1.1 salwch dros dro neu ddamwain/anaf **ar adeg yr asesiad**;
 - 2.1.2 profedigaeth **ar adeg yr asesiad** (pan fo grwpiau cyfan wedi cael eu heffeithio, dim ond y rhai sydd agosaf fydd yn gymwys fel arfer);
 - 2.1.3 argyfwng domestig yn digwydd **ar adeg yr asesiad**;
 - 2.1.4 aflonyddwch difrifol **yn ystod arholiad**, yn arbennig pan fo deunydd wedi'i recordio yn cael ei ddefnyddio;
 - 2.1.5 digwyddiadau damweiniol **ar adeg yr asesiad**, megis derbyn y papur arholiad anghywir, derbyn papur arholiad neu CD diffygiol, offer ymarferol yn methu, deunyddiau'n methu â chyrraedd ar amser;
 - 2.1.6 cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon, gwerysilloedd hyfforddi neu ddigwyddiadau eraill **ar lefel ryngwladol ar adeg yr asesiad**, e.e. cynrychioli eu gwlad ar lefel ryngwladol mewn gemau gwyddbwyll neu bêl-droed;
 - 2.1.7 y ganolfan yn methu â gweithredu trefniadau mynediad **a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer y gyfres arholiadau benodol honno**.
- 2.2 Pan fo ymgeiswyr wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer y fanyleb, ond dewiswyd y testunau anghywir, gellir rhoi ystyriaeth arbennig yn ôl disgrisiwn y corff dyfarnu.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y testunau cywir yn cael eu haddysgu. Lle nad yw hyn wedi digwydd, ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y bydd ymgeisydd yn cael ystyriaeth arbennig. Bydd y corff dyfarnu'n ymchwilio i achosion o'r fath ar sail achosion unigol.

Pan fo'r testunau anghywir wedi cael eu haddysgu, **rhaid** i'r testunau a astudiwyd fod wedi cael eu harholi yn y fanyleb gyfredol yn ystod cyfres arholiadau flaenorol.

- 2.3 **Ni** fydd ymgeiswyr yn gymwys ar gyfer ystyriaeth arbennig os bydd y gwaith paratoi ar gyfer yr arholiad, neu'r perfformiad yn ystod yr arholiad wedi ei effeithio gan:
- 2.3.1 salwch tymor hir neu anawsterau eraill yn ystod y cwrs sy'n effeithio ar amser adolygu, oni bai bod y salwch neu'r amgylchiadau'n gwaethygu yr hyn a fyddai'n fater bach fel arall **ar adeg yr asesiad** (h.y. anawsterau sy'n llawer gwaeth na'r rhai y byddai trefniadau mynediad a gymeradwywyd yn flaenorol wedi'u lleddfu);
 - 2.3.2 profedigaeth yn digwydd dros chwe mis cyn yr asesiad, oni bai bod yr asesiad yn cael ei gynnal **ar ddyddiad yr asesiad**, neu os oes goblygiadau parhaus, megis cwest neu achos llys;
 - 2.3.3 anghyfleustra domestig, megis symud tŷ, diffyg cyfleusterau, cymryd gwyliau (gan gynnwys ymweliadau ysgol/cyfnewid a theithiau maes) ar adeg yr asesiad;
 - 2.3.4 mân aflonyddwch yn yr ystafell arholi a achoswyd gan ymgeisydd arall, megis ymddygiad gwael am ennyd neu ffôn symudol yn canu;
 - 2.3.5 canlyniadau cyflawni trosedd, pan fo wedi'i gyhuddo'n ffurfiol neu wedi'i ganfod yn euog; (Fodd bynnag, gellid ystyried cais ôl-weithredol ar gyfer ystyriaeth arbennig os gollyngir y cyhuddiad yn ddiweddarach neu os bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddyfarnu'n ddiheuog.)
 - 2.3.6 canlyniadau cymryd alcohol neu gyffuriau adloniant;
 - 2.3.7 canlyniadau torri rheoliadau mewnol y ganolfan;
 - 2.3.8 methiant y ganolfan i baratoi ymgeiswyr yn briodol ar gyfer yr arholiad am ba reswm bynnag;
 - 2.3.9 ansawdd addysgu, prinder staff, gwaith adeiladu neu ddiffyg cyfleusterau;
 - 2.3.10 camddarllen yr amserlen a/neu fethu â mynychu'r lle cywir ac ar yr amser cywir;
 - 2.3.11 camddarllen cyfarwyddiadau'r papur cwestiynau ac ateb y cwestiynau anghywir;
 - 2.3.12 gwneud trefniadau personol, megis priodas neu drefniadau gwyliau sy'n gwrthdaro ag amserlen yr arholiadau;
 - 2.3.13 peidio â chyflwyno unrhyw waith cwrs neu asesiad di-arholiad o gwbl, oni bai bod gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad am wedi'i amserlennu ar gyfer cyfnod cyfyngedig o amser, yn hytrach nag yn ystod y cwrs;
 - 2.3.14 methu pob arholiad a chydannau/unedau a asesir yn fewnol;
 - 2.3.15 methu dilyn y cwrs yn llawn o ganlyniad i ymuno â'r dosbarth ran o'r ffordd drwyddo;
 - 2.3.16 anabledd neu anawsterau dysgu (wedi'u diagnosio neu beidio) oni bai bod yr anabledd neu'r anawsterau yn gwaethygu'r hyn a fyddai'n fater bach fel arall **ar adeg yr asesiad**, h.y. anawsterau sy'n waeth na'r rhai a fyddai trefniadau mynediad blaenorol wedi'u lleddfu;
 - 2.3.17 methiant y ganolfan i brosesu trefniadau mynediad erbyn y dyddiad cau swyddogol.

3 Ymgeiswyr sy'n bresennol ar gyfer yr asesiad ond sydd dan anfantais

- 3.1 Rhoddir ystyriaeth arbennig fel arfer trwy osod lwfans marciau ychwanegol i bob cydran/uned a effeithiwyd mewn manyleb. Mae maint y lwfans yn dibynnu ar amser, natur, a hyd a lled y salwch neu anffawd. Bydd uchafswm y lwfans a roddir yn 5% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael yn y gydran dan sylw, gan gynnwys /gwaith cwrs/asesiad di-arholiad.

Rhaid i'r ganolfan fod yn fodlon bod effaith andwyol sylweddol wedi bod ar berfformiad arholiad ymgeisydd neu ei waith o gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad.

- 3.2 Bydd y penderfyniad y mae'r corff dyfarnu'n ei wneud yn seiliedig ar ffactorau amrywiol sy'n gallu amrywio o'r naill bwnc i'r llall. Gall y rhain gynnwys:

- difrifoldeb yr amgylchiadau;
- dyddiad yr arholiad mewn perthynas â'r amgylchiadau; a
- natur yr asesiad, e.e. p'un a yw'n effeithio ar bapurau ysgrifenedig yn hytrach na gwaith cwrs/asesiad di-arholiad, neu p'un a yw'n ymwneud â Phrawf Ymarferol neu Brawf Siarad.

- 3.3 **Ni ellir cymhwyso ystyriaeth arbennig mewn modd cronus.** Er enghraifft, oherwydd trawma diweddar ar adeg yr arholiad a'r ymgeisydd yn dioddef o salwch firol.

Dim ond mewn achosion o'r anhwylderau mwyaf difrifol y dylid gwneud cais am ystyriaeth arbennig.

Dylai ymgeiswyr neu eu rhieni/gofalwyr, yn y lle cyntaf, drafod cais ystyriaeth arbennig gyda'r ysgol neu'r coleg dan sylw.

Rhaid i ymgeiswyr preifat gysylltu â'r ysgol neu'r coleg a gyflwynodd gofrestrïadau ar eu rhan i wneud cais am ystyriaeth arbennig.

Rhaid i'r enghreifftiau o amgylchiadau canlynol fod yn berthnasol **ar adeg yr asesiad**.

5% Dyma uchafswm y lwfans, a bydd yn cael ei neilltuo ar gyfer yr achosion mwyaf eithriadol, megis:

- salwch angheuol yr ymgeisydd;
- salwch angheuol rhiant/gofalwr;
- marwolaeth aelod o'r teulu agos **o fewn dau fis** o'r arholiad;
- argyfwng/digwyddiad aflonyddgar a difrifol iawn **ar adeg yr arholiad neu'n agos at hynny**.

4% Problemau difrifol iawn, megis:

- ymgeisydd neu aelod o'r teulu agosaf â salwch sy'n bygwth bywyd;
- llawdriniaeth fawr **ar adeg yr arholiad neu'n agos at hynny**;
- clefyd difrifol;
- marwolaeth ddiweddar iawn aelod o'r teulu estynedig;
- anaf corfforol difrifol neu barhaol yn digwydd **ar adeg yr arholiad**;
- argyfwng/digwyddiad difrifol **ar adeg yr arholiad**.

Diffinnir 'diweddar iawn' fel cyfnod o fewn un mis i'r arholiad(au). **Rhaid** i'r ganolfan fod yn fodlon bod effaith andwyol sylweddol wedi bod ar berfformiad arholiad ymgeisydd neu ei waith o gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad.

3% Categori mwy cyffredin, (bydd mwy o achosion yn perthyn i'r categori hwn) gan gynnwys:

- profiad trawmatig **diweddar** megis marwolaeth ffrind agos neu berthynas pell;
- salwch **diweddar** o natur fwy difrifol;
- cyflyrau cynhenid/meddygol difrifol neu gyflwr seicolegol yn gwaethygu;
- braich neu goes wedi torri;
- clefyd organau;
- trawma ymosodiad corfforol cyn arholiad;
- argyfwng/digwyddiad diweddar;
- bod yn dyst i ddigwyddiad sy'n peri gofid **ar ddiwrnod** yr arholiad.

DS Diffinnir 'diweddar' fel cyfnod o bedwar mis cyn yr arholiad(au). **Rhaid** i'r ganolfan fod yn fodlon bod effaith andwyol sylweddol wedi bod ar berfformiad arholiad ymgeisydd neu ei waith o gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad.

2% Y categori mwyaf cyffredin o lwfans (bydd y rhan fwyaf o achosion yn perthyn i'r categori hwn), yn cynnwys:

- salwch **ar adeg yr arholiad**;
- braich neu goes wedi torri yn gwella;
- cyfergyd;
- effeithiau beichiogrwydd (**nid** beichiogrwydd fel y cyfryw);
- trallod mawr **ar ddiwrnod arholiad (nid** straen sy'n gysylltiedig ag arholiadau yn unig);
- lwfans ar gyfer y papur diwethaf a wneir mewn diwrnod pan fo ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer tri arholiad neu fwy **wedi'u hamserlennu ar gyfer yr un diwrnod a** phan fo cyfanswm hyd y papurau hynny dros 5 awr 30 munud (arholiadau TGAU) neu dros 6 awr (arholiadau TAG).

(Pan fo amser ychwanegol wedi'i ddefnyddio yn dilyn cymeradwyaeth ffurfiol, dylid cynnwys hyn yn y cyfrifiad.)

(**Rhaid peidio** â chynnwys egwylliau gorffwys dan oruchwyliaeth yng nghyfanswm hyd y papurau wrth wneud cais am ystyriaeth arbennig.)

1% Wedi'i neilltuo ar gyfer problemau llai:

- sŵn yn ystod arholiad am gyfnod hir;
- salwch ymgeisydd arall sy'n arwain at aflonyddwch yn yr ystafell arholi;
- straen neu bryder y mae meddyginiaeth wedi'i rhagnodi ar ei gyfer;
- clefyd y gwair **ar ddiwrnod yr arholiad**;
- ychydig o anrhefn yn deillio o broblemau gweinyddol.

Pan fydd y cais yn methu â bodloni'r meini prawf, bydd yn cael ei wrthod.

4 Ymgeiswyr sy'n absennol o gydran/uned ar yr amserlen am resymau derbyniol

- 4.1 Pan fydd ymgeisydd wedi colli cydran/uned ar yr amserlen am resymau derbyniol, a'r ganolfan yn barod i gefnogi cais am ystyriaeth arbennig, gellir gwneud addasiad i'r radd derfynol. Fodd bynnag, **rhaid** bod wedi colli'r gydran/uned yn y gyfres derfynol a **rhaid** bodloni gofynion sylfaenol adran 4.3.

Ni chaiff cyrff dyfarnu roi cyngor ynghylch a yw ymgeisydd yn addas i sefyll arholiad. **Rhaid** i staff y canolfannau ddilyn eu gweithdrefnau mewnol ar gyfer ymdrin ag ymgeiswyr sy'n teimlo'n sâl ar ddiwrnod yr arholiad.

- 4.2 Ar gyfer arholiadau unedol a wneir yn ystod cyfres arholiadau cyn ardystio, **rhaid** ail-gofrestru ymgeiswyr ar gyfer unrhyw unedau a gollwyd yn ystod y cyfle asesu nesaf. Oni bai bod anawsterau'n codi, e.e. perfformiadau grŵp na ellir eu hailadrodd, **ni** roddir ystyriaeth arbennig.

Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol pan fo carfanau cyfan yn colli unedau oherwydd tywydd garw neu am unrhyw reswm arall, neu pan fo ymgeiswyr unigol yn colli unedau oherwydd i newid canolfan.

Gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol

- 4.3 Nodir y gofynion sylfaenol ar gyfer graddio uwch mewn achosion o absenoldeb derbyniol isod. Ym mhob achos, **rhaid** i'r ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn a bod wedi cwmpasu'r cwrs cyfan.

Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch (Manylebau AQA, OCR, Pearson a CBAC): **rhaid** bod wedi cwblhau o leiaf 25% o'r asesiad cyfan†.

Sylwer **nad** yw cwblhau unedau UG neu U2 yn rhannol yn dderbyniol.

- Manylebau Llinol UG: **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r asesiad cyfan.
- Manylebau unedol UG: **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r asesiad cyfan.
- Bydd ychwanegiadau a roddir ar lefel UG (manylebau unedol) yn cael eu trosglwyddo i Safon Uwch.
- Manylebau llinol Safon Uwch: **rhaid** bod wedi cwblhau 25% o'r asesiad cyfan.
- Dyfarniad chwe uned Safon Uwch (manylebau unedol): **Rhaid** i 25% o gyfanswm yr asesiad fod wedi'i gwblhau gydag **o leiaf un** uned A2 wedi'i chwblhau.
- Dyfarniad pedair uned Safon Uwch (manylebau unedol): **Rhaid** i 25% o gyfanswm yr asesiad fod wedi'i gwblhau gydag **o leiaf un** uned A2 wedi'i chwblhau.
- **Ni roddir** dyfarniad Safon Uwch (manylebau unedol) ar sail unedau UG yn unig.

TGAU (Manylebau AQA, OCR, Pearson a CBAC): rhaid bod wedi cwblhau 25% o'r asesiad cyfan†

†**Ar gyfer cymwysterau CCEA TAG UG a Safon Uwch, a chymwysterau TGAU, rhaid** bod wedi cwblhau 40% o'r asesiad cyfan.

Projectau (yn cynnwys Project Estynedig): os nad yw project wedi'i gwblhau, **ni ellir** rhoi gradd.

Mewn amgylchiadau prin ac eithriadol iawn, mae gan gorff dyfarnu'r hawl i ddyfarnu gradd uwch ar ganran is. Mewn achosion o'r fath **rhaid** i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol. Fodd bynnag, **ni ellir** dyfarnu os nad oes un o'r cydrannau/unedau o fewn manyleb wedi'i chwblhau.

5 Materion eraill

Ardystiad arall

- 5.1 Pan fo ymgeisydd wedi cofrestru ar gyfer manyleb ac wedyn wedi marw, neu ag afiechyd angheuol ac nad yw'n gallu sefyll arholiadau/asesiadau, dylai'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol. Bydd y corff dyfarnu'n cyngori'r ganolfan ynglŷn â'r broses a'r wybodaeth sy'n ofynnol.

Dylai canolfannau nodi, lle bo corff dyfarnu yn cyhoeddi tystysgrif anrhydeddus/gwobr ar ôl marwolaeth neu lythyr cydnabod, nad yw hyn yn ddyfarniad cymhwyster ac na fydd ganddo unrhyw werth academiaidd.

Estyniadau i waith cwrs/asesiad di-arholiad

- 5.2 Pan fo ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig, h.y. salwch dros dro, anaf dros dro neu anhwylder arall **cyn** cyflwyno ei waith, efallai y bydd yn bosibl caniatáu estyniad byr i'r dyddiad cau.

Byddai estyniad o ddim mwy na deg diwrnod i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith o bosibl yn galluogi'r ymgeisydd i gwblhau ei waith. **Rhaid** i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol i ofyn am y trefniant hwn.

Diffyg mewn gwaith (gwaith cwrs/asesiad di-arholiad)

- 5.3 Os yw ymgeisydd wedi dioddef salwch sydyn neu ryw anhap arall yn ystod cyfnod cynhyrchu'r gwaith, gall fod yn bosibl derbyn llai o waith heb gosb mewn rhai pynciau. Fodd bynnag, **rhaid bod wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith**. Ni fydd yn bosibl gwneud hyn os mai dim ond un darn mae'r fanyleb yn gofyn amdano.

Pan fo angen sawl darn o waith, dim ond os yw'r darnau hynny'n profi'r un meini prawf y bydd y gostyngiad yn cael ei dderbyn. Ni fydd modd ystyried hyn ym mhob achos. Er enghraifft, os na chyflwynwyd gwaith, os nad yw'r amcanion asesu wedi'u bodloni, neu os ymunodd yr ymgeisydd â'r cwrs yn hwyr.

Ni ddylai'r ganolfan wneud unrhyw newid i'r marciau. Dylid cyflwyno Ffurflen 10 – JCQ/SC† i'r corff dyfarnu ynghlwm wrth grynodedb o'r marciau ar draws yr amcanion asesu.

Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn am y cwrs ond nad oeddent wedi gallu gorffen y gwaith. Ni fydd cyrff dyfarnu fel arfer yn cytuno o flaen llaw i lai o waith cwrs gael ei gyflwyno.

† **Ni ddylai** canolfannau AQA, CCEA nac OCR gyflwyno Ffurflen 10 – JCQ/CB. **Rhaid** cyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio e-AQA, CCEA SpC ar-lein neu OCR Interchange fel y bo'n briodol.

Gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi (cydrannau/unedau asesu di-arholiad)

- 5.4 Mae manylion pellach i'w cael yng nghyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad*:

<https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments>

Problemau eraill

- 5.5 Mae yna amgylchiadau sy'n codi trwy ddamwain, a gall fod angen cyngor gan arbenigwr. Er enghraifft, pe rhoddir papur cwestiynau anghywir i'r ymgeisydd neu os yw papur cwestiynau'n ddiffygiol mewn rhyw ffordd, megis tudalen wedi'i hargraffu'n anghywir.

Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r achosion hyn trwy ddulliau gwahanol i'r rhai a nodwyd hyd yma. Efallai y bydd angen eu cyfeirio at swyddog pwnc neu arholwr profiadol ar gyfer gwneud penderfyniad ar bwnc penodol o ran sut y dylid dyfarnu ystyriaeth arbennig. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd y canlyniadau'n dangos yr ychwanegiad ar unwaith. Efallai fod y marciau wedi'u haddasu i ystyried y broblem a gododd.

- 5.6 Efallai nad yw canolfannau'n sylweddoli bod ymgeisydd wedi cael papur cwestiynau anghywir. Bydd cyrff dyfarnu'n hysbysu canolfannau o unrhyw anghysondebau. Os yw'r ganolfan yn ymwybodol o'r gwall ar adeg yr arholiad, dylid rhoi'r papur cwestiynau cywir i'r ymgeisydd, lle bo'n bosibl, cyhyd â'i fod ef/bod hi'n parhau i fod dan oruchwyliaeth y ganolfan, ac yn gallu parhau â'r arholiad.

Dylid cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol pan fo'r papur anghywir wedi'i gymryd, a phan fo'r papur cywir wedi'i roi yn lle'r papur anghywir, a'r ymgeisydd wedi cymryd y ddau. Mae yna amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i gorff dyfarnu roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi rhoi cynnig ar bapur anghywir.

- 5.7 Pan fo ymgeiswyr wedi cymryd yr aseiniad gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad anghywir, gall y ganolfan gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig os nad oes modd cofrestru ymgeiswyr yn ystod y cyfle asesu nesaf. Mae yna amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i gorff dyfarnu roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi rhoi cynnig ar gydran/uned asesiad di-arholiad anghywir.

Prosesu ceisiadau am ystyriaeth arbennig (Cymwysterau TGAU a TAG)

Ceisiadau ar-lein am ystyriaeth arbennig

- **Rhaid** prosesu ceisiadau am ystyriaeth arbennig ar gyfer cymwysterau AQA, OCR, Pearson, a TAG a TGAU CBAC ar-lein.
- **Rhaid** gwneud ceisiadau ar-lein ar gyfer arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu. **Ni** chaiff ffurflenni papur eu derbyn. **Ni ddylid** cyflwyno taenlenni i gyrff dyfarnu.
- Gwneir ceisiadau ar-lein am ystyriaeth arbennig trwy e-AQA, CCEA SpC Online, Edexcel Online, OCR Interchange a Gwefan Ddiogel CBAC.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y system ar-lein yn rhoi penderfyniad ar unwaith.
- Ar gyfer AQA ac OCR, **rhaid** i ganolfannau hefyd wneud ceisiadau ar-lein pan fo problemau gyda chydrrannau/unedau a asesir yn fewnol, megis gwaith cwrs ac asesiadau di-arholiad, ac mewn achosion sy'n cynnwys grwpiau o ymgeiswyr. **Ni** chaiff ffurflenni papur eu derbyn gan AQA, CCEA ac OCR.
- Pan fo ymgeisydd yn bresennol ond dan anfantais ar gyfer arholiad ysgrifenedig wedi'i amserlennu, gellir gwneud cais ar-lein ar gyfer yr holl gydrannau oedd wedi'u heffeithio unwaith y bydd yr arholiadau drosodd neu unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi dod ato'i hun; pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Nid oes angen gwneud ceisiadau ar wahân ar gyfer arholiadau unigol.
- **Rhaid** i bob cais gael ei gefnogi gan dystiolaeth wedi'i llofnodi a gynhyrchir gan aelod o'r uwch dîm arwain. **Rhaid i'r ganolfan gadw'r dystiolaeth hon tan ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.** Pan fo ymgeisydd yn bresennol ond dan anfantais ar gyfer arholiad ysgrifenedig wedi'i amserlennu, bydd cyfran o achosion yn cael eu samplu gan gorff dyfarnu er mwyn sicrhau ansawdd. Efallai y bydd canolfan yn gofyn i gorff dyfarnu ddarparu tystiolaeth wedi'i llofnodi.
- Pan fo ymgeisydd yn absennol o arholiad am reswm derbyniol, mae angen gwneud cais ar wahân ar gyfer pob diwrnod y collir arholiadau.
- **Rhaid** i bob cais gael ei gefnogi gan dystiolaeth wedi'i llofnodi a gynhyrchir gan aelod o'r uwch dîm arwain. **Rhaid i'r ganolfan gadw'r dystiolaeth hon tan ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.** Pan fo ymgeisydd yn absennol o arholiad am reswm derbyniol, bydd cyfran o achosion yn cael eu samplu gan gorff dyfarnu er mwyn sicrhau ansawdd. Efallai y bydd canolfan yn gofyn i gorff dyfarnu ddarparu tystiolaeth wedi'i llofnodi.

Mae cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i alw i mewn dystiolaeth.

Ceisiadau ar bapur

- 6.1 **Rhaid** cyflwyno Ffurflen 10 – JCQ/SC pan fo corff dyfarnu'n nodi'n benodol bod angen cyflwyno cais ar bapur. Rhaid i bennaeth y ganolfan/swyddog arholiadau gyflwyno un ffurflen fesul ymgeisydd a fesul pwnc. **Rhaid** i dystiolaeth briodol a chyfredol gefnogi'r cais am ystyriaeth arbennig. **Rhaid** llofnodi Ffurflen 10 – JCQ/SC; mae llofnod electronig yn dderbyniol. **Ni fydd** ceisiadau'n cael eu derbyn os cânt eu cyflwyno'n uniongyrchol gan rieni neu ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeiswyr preifat gysylltu â'r ysgol neu'r coleg a gyflwynodd gofrestriadau ar eu rhan i wneud cais am ystyriaeth arbennig.

- 6.2 **Ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, dim ond dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn a rhaid eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer ymholiadau ynghylch canlyniadau'r gyfres arholiadau briodol.**

Mae'n **rhaid** i aelod o'r uwch dîm arwain gynhyrchu dystiolaeth i gefnogi cais hwyr.

Ni ellir cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig ar ôl cwblhau ymholiad ynghylch canlyniadau.

- 6.3 Gall aelod o'r uwch dîm arwain atodi llythyr o eglurhad i'r ffurflen pan fo'r amgylchiadau'n anarferol, neu pan fo'r ffurflen yn annigonol ar gyfer y sefyllfa benodol sydd wedi codi. Mewn rhai achosion, mae cyflwyno un ffurflen gyda llythyr eglurhaol yn briodol, ac atodi rhestr o ymgeiswyr sydd wedi cael eu heffeithio.

- 6.4 Nid yw'n bosibl i bob llythyr dderbyn ateb unigol. Mae'n bwysicach prosesu'r ceisiadau cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Efallai na fydd cyrff dyfarnu'n gallu ymateb yn bersonol i bob cais unigol.

Rhaid i'r ganolfan ymdrin â phob achos.

Mae gan gyrff dyfarnu broses apelio gyhoeddedig ar gyfer penderfyniadau ynghylch ystyriaeth arbennig. Nodir y broses hon yng nghyhoeddiad CGC, *Canllaw i brosesau apelio'r cyrff dyfarnu*: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals>

Rhai enghreifftiau pan fo ystyriaeth arbennig yn briodol a phan nad yw'n briodol

Enghraifft 1

Mae ymgeisydd Blwyddyn 12 yn sefyll ei arholiadau TAG UG ym mis Mehefin 2022. Nid yw'r ymgeisydd yn gallu mynychu unrhyw un o'i arholiadau UG (Cemeg, Mathemateg a Ffiseg) oherwydd afiechyd. Bydd y ganolfan yn ei ail-gofrestru unwaith eto ar gyfer TAG UG Cemeg, Mathemateg a Ffiseg y cyfle asesu nesaf posibl – Mehefin 2023.

Enghraifft 2

Mae ymgeisydd yn methu dau bapur TGAU mewn un diwrnod, Ffrangeg yn y bore a Chyfrifiadureg yn y prynhawn, oherwydd afiechyd. Mae hi'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer dyfarniad TGAU ym mis Mehefin 2022, ar ôl cwblhau dros 25% o'r holl asesiad yn y ddau bwnc TGAU*. Mae'r ganolfan yn gwneud cais am ystyriaeth arbennig. Gan fod y ganolfan yn gwybod bod yr ymgeisydd wedi bod yn cael trafferth gyda'i hiechyd dros yr ychydig ddyddiau cyn hynny, nid oes angen iddyn nhw ofyn i'r ymgeisydd ddangos llythyr gan ei meddyg teulu. Gall y ganolfan ysgrifennu llythyr ategol i gadarnhau ei habsenoldeb o'r ddau bapur arholiad TGAU.

Enghraifft 3

Mae ymgeisydd yn sefyll arholiad TAG Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth ar fore dydd Iau. Mae'n hysbys ei fod yn cael trafferth gyda haint ar y frest ac yn y glust, ond eto i gyd, mae'n benderfynol o sefyll ei arholiad. Mae salwch yr ymgeisydd yn gwbl amlwg i'r tîm goruchwyllo. Fodd bynnag, nid yw'r ymgeisydd yn gallu mynychu ei arholiad TAG Safon Uwch mewn Almaeneg y bore canlynol. Mae'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer dyfarniad TAG Safon Uwch mewn Almaeneg gan ei fod eisoes wedi sefyll un papur. Gallai'r ganolfan ysgrifennu datganiad yn cefnogi'r cais am ystyriaeth arbennig gan ei bod yn gwybod ei fod am fod yn sâl cyn iddo fod yn absennol o'r arholiad fore dydd Gwener.

Enghraifft 4

Mae ymgeisydd yn sefyll arholiad TGAU mewn Rwsieg brynhawn Dydd Iau. Nid oedd unrhyw broblemau hysbys yn ystod yr arholiad ar y Dydd Iau. Fodd bynnag, nid yw hi'n mynychu ei harholiad TGAU mewn Daearyddiaeth ar fore dydd Gwener. Mae ei mam yn cysylltu â swyddfa'r ysgol ar fore'r arholiad Daearyddiaeth i hysbysu am ei habsenoldeb oherwydd anhwylder stumog. Nid oes tystiolaeth feddygol ar gael i gefnogi'r cais. Mae'r ganolfan yn cynghori'r rhiant i gwblhau rhan berthnasol Ffurflen 14 – JCQ/ME a mynd â hi wedyn i swyddfa'r ysgol. O dderbyn Ffurflen 14, mae'r ganolfan yn teimlo y gall gefnogi'r cais ac mae'n cyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig. Mae'r Ffurflen 14 yn cael ei chadw yn ffeiliau'r ganolfan.

Enghraifft 5

Mae ymgeisydd yn sefyll arholiad TAG Safon Uwch mewn Economeg fore Dydd Llun. Mae'n cael triniaeth ar gyfer salwch difrifol. Yn ddiweddar, rhagnodwyd meddyginiaeth ar gyfer yr ymgeisydd sy'n achosi sgil-effeithiau difrifol. Mae'r ymgeisydd yn sefyll ei arholiad TAG Safon Uwch mewn Economeg yn ôl yr amserlen ond nid yw'n gallu sefyll ei arholiadau TAG Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau a Safon Uwch mewn Addysg Gorfforol. Gall fodloni'r rheolau ar gyfer ystyriaeth arbennig gan ei fod yn wedi cwblhau o leiaf 25% o'r fanyleb yn achos TAG Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau a TAG Safon Uwch mewn Addysg Gorfforol. Mae'r ymgeisydd yn ymweld â'i feddyg teulu, ac oherwydd ei gwybodaeth am ei chlaf a'i gyflwr, mae'n fwy na pharod i lunio nodyn ar gyfer yr ysgol. Yn yr un modd, mae ei ysgol yn barod i ysgrifennu datganiad cefnogol.

*Ar gyfer manylebau CCEA TGAU, rhaid bod wedi cwblhau 40% o'r asesiad cyfan.

7 Addasiadau ar ôl yr asesiad – ystyriaeth arbennig (Cymwysterau Galwedigaethol)

7.1 Dyfarnu ystyriaeth arbennig – cymwysterau galwedigaethol

Bydd penderfyniad y corff dyfarnu i roi ystyriaeth arbennig mewn cymwysterau galwedigaethol wedi'i seilio ar wahanol ffactorau, a allai amrywio o ddysgwr i ddysgwr a rhwng un asesiad a'r llall. Gall y ffactorau hyn gynnwys difrifoldeb yr amgylchiadau, dyddiad yr asesiad, a natur yr asesiad.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl na ellir rhoi ystyriaeth arbennig pan fo:

- angen dangos cymhwysedd ymarferol ar gyfer asesu;
- rhaid bodloni'r meini prawf asesu yn llwyr;
- unedau/cymwysterau yn rhoi 'Trwydded i Ymarfer'.

Pan fo asesiad wedi'i golli neu pan fo ar ffurf prawf ar gais, megis prawf electronig wedi'i osod a'i farcio gan gyfrifiadur, dylai'r ganolfan gynnig cyfle i'r dysgwr gymryd yr asesiad yn ddiweddarach.

Rhaid ceisio cyngor y corff dyfarnu perthnasol bob amser.

7.2 Gwneud cais am ystyriaeth arbennig mewn cymwysterau galwedigaethol

Rhaid gwneud cais am ystyriaeth arbennig ar sail achosion unigol. **Rhaid** gwneud ceisiadau ar wahân ar gyfer pob dysgwr. Yr unig eithriad ar gyfer hyn yw pan fo grŵp o ddysgwyr wedi'u heffeithio gan amgylchiadau tebyg yn ystod asesiad, megis larwm tân. **Rhaid** atodi rhestr o ddysgwyr sydd wedi'u heffeithio ynghlwm wrth y cais.

Rhaid cyflwyno ceisiadau am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio Ffurflen 10 – JCQ/SC neu Ffurflen VQ/SC.

Mae Ffurflen 10 – JCQ/SC neu Ffurflen VQ/SC ar gael yn electronig drwy:

<http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms>

I sicrhau y gellir prosesu ceisiadau yn effeithiol, **rhaid** i ganolfannau hefyd gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cais. Er enghraifft, datganiad gan aelod o staff y ganolfan neu unrhyw wybodaeth briodol arall.

Rhaid i Bennaeth y Ganolfan/Uwch Arholwr/Pennaeth awdurdodi pob cais am ystyriaeth arbennig.

Yn ystod y broses ymgeisio ystyriaeth arbennig, bydd corff dyfarnu ond yn cysylltu â'r ganolfan ar ran y dysgwr.

Ni ystyrir rhoi ystyriaeth arbennig unwaith y bydd cyflawniad dysgwr wedi'i hawlio a'i ardystio.

7.3 Gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi (gwaith wedi'i asesu'n fewnol)

Pan fydd gwaith dysgwr wedi'i golli neu ei ddifrodi, gall corff dyfarnu ystyried cais am ystyriaeth arbennig. Ym mhob achos, **rhaid** i'r ganolfan allu dilysu bod y gwaith wedi'i gwblhau a'i fod wedi cael ei fonitro wrth i'r ymgeisydd weithio arno.

Ar gyfer cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, rhaid i'r ganolfan gadw cofnodion asesu ar wahân i bortffolio'r dysgwr. Mewn achos o golli portffolio, gellir defnyddio'r cofnodion hyn, ynghyd â sesiynau holi ac ateb wedi'u dogfennu'n llawn neu ddatganiadau ysgrifenedig, fel y bo'n briodol, i gadarnhau cymhwysedd y dysgwr. Dylid dilysu portffolio wedi'i ail-greu, oherwydd bod tystiolaeth wedi'i cholli, yn fewnol.

Rhaid i'r ganolfan ddilyn gweithdrefnau cyhoeddedig y corff dyfarnu ar gyfer gwaith sy'n cael ei golli neu ei ddifrodi.

7.4 Tystysgrifau eraill

Dylid gwneud cais am dystysgrif anrhydeddus/gwobr ar ôl marwolaeth pan fo afiechyd angheuol ar ddysgwr neu os yw dysgwr wedi marw.

Rhaid ceisio cyngor gan y corff dyfarnu perthnasol a fydd yn hysbysu'r ganolfan o'r broses.

Dylai canolfannau nodi, lle bo corff dyfarnu yn cyhoeddi tystysgrif anrhydeddus/gwobr ar ôl marwolaeth neu lythyr cydnabod, nad yw hyn yn ddyfarniad cymhwyster ac na fydd ganddo unrhyw werth academiaidd.

Atodiad 2 Canllawiau atodol ynghylch y broses ystyriaeth arbennig i ganolfannau yng Nghymru yng nghyfres arholiadau Mehefin 2022*

Cyhoeddwyd 4 Mai 2022

*Nid yw'r canllawiau atodol hyn yn berthnasol i ganolfannau Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Dylid dilyn canllawiau cyfatebol y llywodraeth a/neu asiantaeth y llywodraeth mewn unrhyw awdurdodaeth arall.

Rhoddwyd amrywiaeth o fesurau ar waith yn yr haf i gefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau TAG, UG, Safon Uwch a TGAU. Ymhlith y mesurau hyn y mae:

- addasiadau i'r unedau Asesiad Di-arholiad a/neu unedau sy'n cael eu harholi i bob cymhwyster CBAC TGAU a TAG sy'n
 - symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn 2022
 - lleihau gofynion yr Asesu Di-arholiad
 - cyflwyno elfen o ddewis i asesiadau naill ai drwy gynnig dewis o unedau neu ddewis o gwestiynau mewn uned.
- llacio'r rheolaethau ar gyfer cynnal llawer o unedau'r Asesiad Di-arholiad
- darparu gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch yr hyn mae'r arholiadau'n mynd i ganolbwyntio arno fel ffordd o helpu'r ymgeiswyr i adolygu ar gyfer pynciau lle nad oedd yn bosibl symleiddio'r cynnwys i'w asesu
- graddio hael o gymharu â chyfres arholiadau Mehefin 2019
- o leiaf deg (10) diwrnod rhwng arholiad cyntaf ac olaf pob manyleb TAG UG, Safon Uwch a TGAU. O wneud hyn, bydd llai o siawns y bydd yr ymgeisydd yn colli'r holl arholiadau mewn pwnc oherwydd afiechyd.

Mae cyrff dyfarnu'r CGC sy'n darparu cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith hefyd i gefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau'r haf hwn. Bydd y cyrff dyfarnu perthnasol wedi cyhoeddi'r mesurau hyn.

Canllawiau atodol ar gyfer cyfres arholiadau Mehefin 2022

Mae'r cyrff dyfarnu CGC sy'n gweithredu yng Nghymru yn cyhoeddi'r canllawiau atodol hyn ynghylch y defnydd o'r broses ystyriaeth arbennig yng nghyd-destun cyfres arholiadau Mehefin 2022 a chanllawiau Llywodraeth Cymru: [Hunanynysu: canllawiau i bobl â COVID-19 a'u cysylltiadau](#) a ddiweddarwyd ar 03 Mai 2022.

Dylid darllen y canllawiau atodol hyn ar y cyd ag adrannau eraill cyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* sy'n nodi'r dulliau i'w defnyddio lle mae amgylchiadau andwyol y tu hwnt i'w reolaeth wedi effeithio'n sylweddol ar berfformiad ymgeisydd yn yr arholiad neu wrth gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad. Bydd yr ymgeisydd hwn wedi'i baratoi yn llawn ac wedi ymdrin â'r cwrs cyfan. Dylai canolfannau gyfeirio hefyd at yr adrannau ar gymhwyso tariffau ystyriaeth arbennig a phrosesu ceisiadau.

Y ddau gategori o ystyriaeth arbennig yw:

- ymgeisydd, sy'n bresennol ar gyfer yr arholiad/asesiad di-arholiad ar ddiwrnod yr arholiad ond dan anfantais; (**gweler adran 3, tudalen 6** o'r ddogfen hon - canllawiau'r CGC ar y broses ystyriaeth arbennig)

neu

- ymgeisydd sydd, ar ddiwrnod yr arholiad/asesiad di-arholiad yn absennol o'r arholiad/asesiad di-arholiad am reswm derbyniol (**gweler adran 4, tudalen 8** o'r ddogfen hon - canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig y CGC). Canolbwyntir ar absenoldeb yn unig yn y canllawiau atodol hyn.

Darnau allweddol o Ganllawiau Llywodraeth Cymru oedd yn weithredol ar 03 Mai 2022

Hunanynysu: canllawiau i bobl â COVID-19 a'u cysylltiadau

Mae'n bwysig bod canolfannau'n darllen ac yn ystyried yr holl ganllawiau priodol gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw ganllawiau iechyd y cyhoedd eraill. Er hwylustod yn unig y caiff y darnau hyn eu cynnwys.

Beth ddylech chi ei wneud os oes gennych symptomau COVID-19

Os oes gennych chi unrhyw un o'r **prif symptomau** COVID-19, dylech hunanynysu a chymryd **prawf llif unffordd (LFT)**

Gallwch archebu profion llif unffordd ar-lein neu ffonio 119 rhwng 7am ac 11pm (mae galwadau am ddim)

Cofiwch hunanynysu nes y cewch ganlyniad eich prawf llif unffordd

Prif symptomau COVID-19 yw:

- tymheredd uchel
- peswch cyson
- colli eich synnwyr o flas neu arogl neu sylwi ar newid ynddo

Os cewch ganlyniad prawf LFT negatif

Gallwch roi'r gorau i hunanynysu ar unwaith.

Pobl sy'n sefyll arholiadau TGAU, Safon UG, Safon uwch a rhai galwedigaethol

Rydyn ni am alluogi dysgwyr i sefyll eu harholiadau, yn dda ac yn ddiogel.

- Os oes gennych unrhyw un o brif symptomau COVID-19, dylech hunanynysu a chymryd prawf llif unffordd (LFT).
- Os yw'r prawf yn bositif, dylech hunanynysu am o leiaf 3 diwrnod llawn. Diwrnod 1 yw'r diwrnod ar ôl i'ch symptomau ddechrau. Cofnodwch eich canlyniad.
- Ar ddiwrnod 3, os yw eich symptomau wedi diflannu, cymrwch brawf llif unffordd. Os yw'r prawf hwnnw'n negatif, cymrwch brawf llif unffordd arall ar ddiwrnod 4.
- Os yw eich prawf ar ddiwrnod 4 hefyd yn negatif, a'ch bod yn teimlo'n iawn ac nad oes tymheredd uchel gennych, gallwch roi'r gorau i hunanynysu i sefyll eich arholiad. Cofnodwch eich canlyniad.
- Os yw'r prawf naill ai ar ddiwrnod 3 neu 4 yn bositif, dylech barhau i hunanynysu a chysylltu â'ch ysgol neu leoliad addysg.
- Os oes gennych dymheredd uchel o hyd neu eich bod yn teimlo'n sâl, dylech barhau i hunanynysu nes bod eich gwres yn normal eto neu eich bod yn teimlo'n well.
- Dylech barhau i gymryd profion llif unffordd dyddiol nes cewch chi ddau brawf negatif yn olynol, wedi'u cymryd ddiwrnod ar wahân, neu tan ddiwrnod 10 - pa bynnag un a ddaw gyntaf. Nid oes angen prawf llif unffordd negatif ar ddiwrnod 10 er mwyn rhoi'r gorau i hunanynysu.

Yn ôl yr arfer mewn cyfres arholiadau safonol, disgwylir i ymgeiswyr gwblhau arholiadau i dderbyn gradd.

Dylai staff canolfannau lle bynnag y bo hynny'n bosibl barhau i annog ymgeiswyr i fynychu eu harholiadau. Gall fod achosion eithriadol wrth gwrs lle na fydd hyn yn bosibl, e.e. afiechyd dros dro ar ddiwrnod yr arholiad.

Dylai canolfannau ac ymgeiswyr gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru fel y maent yn berthnasol ar ddiwrnod arholiad(au) yr ymgeisydd. Bydd cyrff dyfarnu'r CGC yn diweddarau'r canllawiau atodol hyn cyn gynted â phosibl os bydd y canllawiau iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol yn newid.

Ystyriaeth arbennig pan fo rheswm derbyniol dros absenoldeb ymgeisydd

Rhaid atgoffa ymgeiswyr y gellir ond dyfarnu gradd drwy'r broses ystyriaeth arbennig os ydynt yn absennol o uned arholiad neu asesiad di-arholiad am reswm derbyniol.

Caiff ymgeisydd sy'n hunanynysu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar adeg yr arholiad ei ystyried yn absennol o'r arholiad am reswm derbyniol. Cynghorir ymgeiswyr i gymryd prawf llif unffordd (LFT) os oes ganddynt unrhyw rai o **brif symptomau** COVID-19 ac i hunanynysu os yw canlyniad y prawf LFT yn positif. **Nid** oes gofyn iddynt hunanynysu os yw canlyniad y prawf LFT yn negatif. **Ni** fyddai hynny felly'n cael ei ystyried yn absenoldeb o arholiad am reswm derbyniol, onid oeddent yn rhy sâl i sefyll eu harholiad.

Tystiolaeth o ddilysrwydd ymgeiswyr am ystyriaeth arbennig

Bydd cyrff dyfarnu'r CGC yn addasu Ffurflen 14 - JCQ/ME - *Hunanardystio i ymgeiswyr sydd wedi colli arholiad* i gynorthwyo canolfannau wrth iddynt ymdrin ag ymgeiswyr sy'n absennol o arholiad am reswm derbyniol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd canolfannau'n disgwyl i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid ac ymgeiswyr lenwi'r rhannau perthnasol ar y ffurflen.

Gall canolfannau gadarnhau amgylchiadau'r ymgeisydd, lle nodwyd y rhain ar Ffurflen 14 fel mewn unrhyw gyfres arholiadau, i brosesu cais am ystyriaeth arbennig gan ddefnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'.

Y gofynion lleiaf i ymgeisydd dderbyn gradd drwy'r broses ystyriaeth arbennig

Mae **Adran 4.3, tudalen 8** y ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion lleiaf ar gyfer gwneud addasiad i radd os yw ymgeisydd yn absennol am reswm derbyniol.

Fodd bynnag, gan fod amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â chyfres arholiadau Mehefin 2022, bydd y cyrff dyfarnu'n **dyfarnu gradd lle y cwblhaodd ac y cyflwynodd ymgeiswyr cymwys asesiad(au) ar gyfer o leiaf un uned gyfan yn y fanyleb.**

Yn yr un modd â chyfresi arholiadau safonol blaenorol, **ni ddyfernir cymhwyster** lle na chwblhaodd yr ymgeisydd unrhyw arholiadau/asesiadau ffurfiol mewn manyleb a osodwyd gan gorff dyfarnu a'u cyflwyno gan y ganolfan.

Gwybodaeth ychwanegol

Os yw canolfan yn amau dilysrwydd y manylion y mae'r ymgeisydd wedi'u rhoi ar Ffurflen 14, yna dylent ddefnyddio **polisi a gweithdrefn safonol y CGC** i ymchwilio'r mater fel achos o amheuaeth o gamymddwyn ymgeisydd.

Dylai ymgeiswyr gael gwybod y gellir tynnu eu canlyniadau yn ôl, neu eu diarddel os yw'r wybodaeth y maent yn ei rhoi ynghylch dilysrwydd am ystyriaeth arbennig yn wybodaeth ffug.

Engheifftiau o senarios posibl:

Enghraifft 1

Mae ymgeisydd Safon Uwch yn sâl ac mae ganddo dymheredd uchel ar ddiwrnod un o'i arholiadau Safon Uwch.

Mae'r ymgeisydd yn cymryd prawf llif unffordd (LFT) ac mae canlyniad y prawf yn positif.

Mae'r ymgeisydd yn rhoi gwybod am [ganlyniad positif y prawf LFT](#) ac yn cysylltu â'r ganolfan i ddweud wrthyn nhw ei fod yn hunanynysu am dri (3) diwrnod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac y bydd yn absennol o'r arholiad Safon Uwch.

Ar ddiwrnodau 3 a 4 nid oes gan yr ymgeisydd dymheredd bellach, mae'n cymryd profion LFT pellach ac yn cael canlyniad negatif bob tro.

Mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad negatif y prawf LFT](#) ac yn cysylltu â'r ganolfan i ddweud nad yw bellach yn hunanynysu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac y bydd yn bresennol yn ei arholiad Safon Uwch nesaf.

Mae'r ganolfan yn gofyn i'r ymgeisydd ddefnyddio Ffurflen 14 i hunanardystio ei afiechyd.

Cyflwynir cais ar-lein am ystyriaeth arbennig gan y ganolfan mewn perthynas â phob arholiad safon Uwch a gollwyd i'r cyrff dyfarnu perthnasol ac yn defnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'.

Gan fod bwlch o ddeg (10) diwrnod o leiaf rhwng arholiadau'r ymgeisydd bydd yn gallu derbyn graddau Safon Uwch yn seiliedig ar yr unedau eraill a gwblhawyd.

Enghraifft 2

Mae peswch cyson ar ymgeisydd Safon Uwch ar ddiwrnod ei arholiad.

Mae'r ymgeisydd yn cymryd prawf llif unffordd (LFT) ac mae canlyniad y prawf yn negatif.

Mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad negatif y prawf LFT](#) ac yn bresennol yn ei arholiad Safon Uwch gan ei fod yn teimlo'n ddigon da i fod yno.

Enghraifft 3

Ar ddiwrnod ei arholiad, mae gan ymgeisydd TGAU un o brif symptomau Covid-19, fel yr amlinellwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

Nid oes prawf llif unffordd (LFT) ar gael i'r ymgeisydd oherwydd amgylchiadau eithriadol ac mae'n cysylltu â'r ganolfan am gyngor.

Mae'r ganolfan yn cyfeirio'r ymgeisydd at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Cyngorir yr ymgeisydd i gael gafael ar prawf llif unffordd (LFT) cyn gynted â phosibl ac i hunanynysu tan y bydd yn cymryd y prawf LFT.

Y diwrnod canlynol mae'r ymgeisydd yn derbyn ac yn cymryd y prawf llif unffordd (LFT). Mae canlyniad y prawf yn negatif.

Mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad negatif y prawf LFT](#) ac nid oes angen iddo hunanynysu mwyach. Felly, mae'n gallu bod yn bresennol yn ei arholiad TGAU nesaf.

Mae'r ganolfan yn gofyn i'r ymgeisydd ddefnyddio Ffurflen 14 i hunanardystio ei afiechyd gan fod un o brif symptomau Covid-19 arno ar ddiwrnod ei arholiad TGAU, a'i fod wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i hunanynysu nes cymryd prawf llif unffordd.

Cyflwynir cais ar-lein am ystyriaeth arbennig gan y ganolfan mewn perthynas â'r arholiad TGAU a gollwyd i'r cyrff dyfarnu perthnasol ac yn defnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'.

Gan fod bwlch o ddeg (10) diwrnod o leiaf rhwng arholiadau'r ymgeisydd bydd yn gallu derbyn graddau TGAU yn seiliedig ar yr unedau eraill a gwblhawyd.

Enghraifft 4

Mae tymheredd uchel ar ymgeisydd TGAU bum (5) diwrnod cyn ei arholiad TGAU cyntaf.

Mae'r ymgeisydd yn cymryd prawf llif unffordd (LFT) ar y diwrnod y gwnaeth nodi ei dymheredd uchel. Mae canlyniad y prawf LFT yn positif.

Mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad positif y prawf LFT](#) ac yn cysylltu â'r ganolfan i roi gwybod iddyn nhw ei fod yn hunanynysu am dri (3) diwrnod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac y bydd yn absennol o'r arholiad TGAU.

Ar ddiwrnod 3 mae'r ymgeisydd yn cymryd prawf LFT arall ac mae'r canlyniad yn positif. Mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad positif y prawf LFT](#) ac yn gwneud prawf arall ar ddiwrnodau 4, 5, 6, 7 ac 8. Ar ddiwrnodau 4, 5 a 6 mae canlyniad y prawf LFT yn dal i fod yn positif ac mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad positif y prawf LFT](#). Mae canlyniadau'r prawf LFT ar ddiwrnodau 7 ac 8 yn negatif.

Mae'r ymgeisydd yn [rhoi gwybod am ganlyniad negatif y prawf LFT](#) ac yn cysylltu â'r ganolfan i ddweud wrthynt nad yw'n hunanynysu mwyach yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac y bydd yn bresennol yn ei arholiad TGAU nesaf.

Mae'r ganolfan yn gofyn i'r ymgeisydd ddefnyddio Ffurflen 14 i hunanardystio ei afiechyd.

Cyflwynir cais ar-lein am ystyriaeth arbennig gan y ganolfan mewn perthynas â phob arholiad TGAU a gollwyd i'r cyrff dyfarnu perthnasol ac yn defnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'.

Gan fod bwlch o ddeg (10) diwrnod o leiaf rhwng arholiadau'r ymgeisydd bydd yn gallu derbyn graddau TGAU yn seiliedig ar yr unedau eraill a gwblhawyd.

Enghraifft 5

Mae ymgeisydd Safon Uwch yn cael canlyniad prawf COVID-19 positif, mae'n cofnodi'r canlyniad ac yn teimlo'n sâl, gyda thymheredd uchel. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd am fynd i'w arholiad.

Mae'r ganolfan yn cyfeirio'r ymgeisydd at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Cynghorir yr ymgeisydd i hunanynysu am dri (3) diwrnod ac i beidio â mynd i'w arholiadau Safon Uwch tan y bydd ganddo ddau ganlyniad prawf negatif ar ôl ei gilydd, wedi'u cymryd un diwrnod ar wahân, neu tan ddiwrnod 10 – pa bynnag un sy'n dod gyntaf.

Mae'r ganolfan yn tawelu meddwl yr ymgeisydd ei fod yn gymwys am ystyriaeth arbennig. Gan fod bwlch o hyd at ddeg (10) diwrnod o leiaf rhwng arholiadau'r ymgeisydd ym mhob pwnc Safon Uwch, gellir dyfarnu graddau ar yr unedau eraill sydd wedi'u cwblhau.

Cyflwynir cais ar-lein am ystyriaeth arbennig gan y ganolfan mewn perthynas â phob arholiad safon Uwch a gollwyd i'r cyrff dyfarnu perthnasol ac yn defnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'.

Manylion cyswilt Cyrff Dyfarnu

I gyflwyno unrhyw ymholiadau am y broses ystyriaeth arbennig, mae manylion y cyrff dyfarnu fel a ganlyn:

AQA Ffôn: 0800 197 7162

Gwefan: www.aqa.org.uk

CBAC Ffôn: 02920 265 000

Gwefan: www.cbac.co.uk

OCR Ffôn: 01223 553 998

Gwefan: www.ocr.org.uk

Pearson Ffôn: 0344 463 2535

Gwefan: <http://qualifications.pearson.com>